# CWM TAF WATER SUPPLY STRATEGY

November 2023

This is not a circular
Owner/Occupier

**The Cwm Taf Water Supply Strategy**

The Cwm Taf Water Supply Strategy will future proof our supply of water to our customers across south Wales by investing in new and resilient water treatment works, which will serve our customers with fresh, clean drinking water for decades to come.

## Why we need a new Water Treatment Works

Water supply is tightly monitored and regulated by the Drinking Water Inspectorate (DWI). This ensures we supply water that is safe to drink and meets the standards set out in the Water Quality Regulations. Welsh Water was issued with a legal notice in 2019 by the DWI requiring us to provide new and improved water treatment processes in the area by March 2030.

The new facilities will not only provide new and improved water treatment processes but will also provide enough water storage to cater for future population growth and also make it more resilient to the effects of climate change.

Without major investment we will not be able to continue to meet the high drinking standards we must comply with and customers will be at risk of increased supply interruptions in the future.

## What we have proposed to date

Between February and April 2022, we consulted on early proposals for a single new water treatment works near Pontsarn, to replace the three nearby water treatment works, Llwyn Onn, Cantref and Pontsticill.

The feedback received was extremely useful, and in March 2023 we announced that we were taking additional time to review the feedback from the local community to further develop our plans.

Some of the key themes from the feedback to our consultation was whether other options were available, such as upgrading existing sites or an alternative location for the new Water Treatment Works, whether we could reduce the visual impact and also a desire to protect Merthyr Tydfil's green infrastructure.

## What we have been doing

**Revisiting the option to replace or upgrade either Llwyn Onn, Cantref or Pontsticill**

The existing infrastructure at the three water treatment works is aging and becoming ever more difficult and costly to upgrade and maintain. Further challenges to upgrades are heightened due to their location as all three existing sites are located within the Bannau Brycheiniog National Park, with sensitivities around landscape, heritage and the environment.

While we had originally looked at the option of replacing or upgrading the existing works, from the feedback received from the local community, it was clear that people wanted us to look at these options again.

Over the course of the past few months, we have been looking again at this, and in particular if it is possible to upgrade one of the existing works and also incorporate enhanced water storage. We are still in the process of exploring this option, however we do need to be clear that if we were able to make this work, we would still need to build a new water treatment works in the Merthyr area, but it would be significantly smaller than the previously proposed site.



# CWM TAF WATER SUPPLY STRATEGY

November 2023

**Reviewing different location options for a smaller new treatment works**

As mentioned above, if upgrading one of the existing sites is an option, we then would be looking at developing a smaller new water treatment works in the Merthyr area.

This means we have been able to consider different areas for a new water treatment works. A location needs to be selected based on several requirements to enable us to deliver affordable and clean water to our customers. This means selecting a location in a suitable position to connect to existing water pipelines as well as the size of the site, whilst ensuring we continue to minimise environmental impacts.

We therefore have been exploring whether there are opportunities to look at alternative locations in the area for a smaller water treatment works, including brownfield sites.

We have also been reviewing whether it is possible to connect any new works to the existing drinking water network without having to go through Cyfarthfa Park. Redeveloping one of the existing water treatment works, reusing existing pipework and building a new smaller water treatment works will significantly reduce, if not remove, impacts on this sensitive historical park.

**Conducting further surveys**

We take responsibility for the environment seriously and are continuing to conduct various surveys to inform any decisions – these include environmental surveys and ground investigations.

These surveys will identify potential environmental and heritage impacts for the proposed new water treatment works, and the associated facilities, to allow us to include mitigation plans into our proposals.

## Next Steps

Hopefully our update will show that we are working hard to look at all the options based on the feedback we received from the local community.

In terms of next steps, we are continuing with the survey work and reviewing all our options, this includes continuing to review our original proposal of a single site water treatment works at Gurnos Farm. Our aim is to provide a further update in March 2024 once the current review has been completed and we have some clear options to present. Please also be assured that we will undertake a full statutory consultation process with the local community before any planning application is submitted.

In the meantime please visit our website; **dwrcymru.com/cwmtaf** that will be updated regularly to provide further information on the Cwm Taf Water Supply Strategy.



# STRATEGAETH CYFLENWAD DŴR CWM TAF

Tachwedd 2023

Nid cylchlythyr yw hwn
Y Perchennog/Deiliad

**Strategaeth Cyflenwad Dŵr Cwm Taf**

Bydd Strategaeth Cyflenwad Dŵr Cwm Taf yn diogelu ein cyflenwad dŵr i'n cwsmeriaid ledled De Cymru yn y dyfodol drwy fuddsoddi mewn gwaith trin dŵr newydd a gwydn, a fydd yn gwasanaethu ein cwsmeriaid gyda dŵr yfed glân a ffres am ddegawdau i ddod.

## Pam mae angen Gwaith Trin Dŵr newydd arnom

Mae'r cyflenwad dŵr yn cael ei fonitro a'i reoleiddio'n dynn gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn cyflenwi dŵr sy'n ddiogel i'w yfed ac sy'n bodloni'r safonau a nodir yn y Rheoliadau Ansawdd Dŵr. Cafodd Dŵr Cymru hysbysiad cyfreithiol yn 2019 gan yr Arolygiaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddarparu prosesau trin dŵr newydd a gwell yn yr ardal erbyn mis Mawrth 2030.

Bydd y cyfleusterau newydd nid yn unig yn darparu prosesau trin dŵr newydd a gwell ond byddant hefyd yn darparu digon o le i storio ddŵr i ddarparu ar gyfer twf yn y boblogaeth yn y dyfodol a hefyd yn gwella'i allu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Heb fuddsoddiad sylweddol, ni fyddwn yn gallu parhau i fodloni'r safonau yfed uchel y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw a bydd cwsmeriaid mewn perygl o wynebu mwy o ymyrraeth â chyflenwadau yn y dyfodol.

## Yr hyn yr ydym wedi'i gynnig hyd yma

Rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2022, buom yn ymgynghori ar gynigion cynnar ar gyfer un gwaith trin dŵr newydd ger Pontsarn, i gymryd lle'r tri gwaith trin dŵr gerllaw, sef Llwyn Onn, Cantref a Phontsticill.

Roedd yr adborth a gafwyd yn hynod ddefnyddiol, ac ym mis Mawrth 2023 fe wnaethom gyhoeddi ein bod yn cymryd amser ychwanegol i adolygu'r adborth a gafwyd gan y gymuned leol i ddatblygu ein cynlluniau ymhellach.

Ymhlith y themâu allweddol a nodwyd o'r adborth i'n hymgynghoriad oedd a oedd opsiynau eraill ar gael, megis uwchraddio safleoedd presennol neu leoliad arall ar gyfer y Gwaith Trin Dŵr newydd, a allem leihau'r effaith weledol a hefyd awydd i ddiogelu seilwaith gwyrdd Merthyr Tudful.

## Yr hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud

**Ailedrych ar yr opsiwn i ddisodli neu uwchraddio naill ai Llwyn Onn, Cantref neu Bontsticill**

Mae'r seilwaith presennol yn y tri gwaith trin dŵr yn heneiddio ac yn dod yn fwyfwy anodd a chostus i'w uwchraddio a'i gynnal. Mae heriau pellach i uwchraddio oherwydd lleoliad y tri safle presennol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gyda sensitifrwydd ynghylch tirwedd, treftadaeth a'r amgylchedd.

Er ein bod wedi edrych yn wreiddiol ar yr opsiwn o ddisodli neu uwchraddio'r gweithfeydd presennol, o'r adborth a gafwyd gan y gymuned leol, roedd yn amlwg bod pobl eisiau i ni edrych ar yr opsiynau hyn eto.

Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi bod yn edrych ar hyn eto ac, yn enwedig, a yw'n bosibl uwchraddio un o'r gweithfeydd presennol a hefyd ymgorffori lle gwell i storio ddŵr. Rydym dal wrthi'n ystyried yr opsiwn hwn, ond mae angen i ni fod yn glir, pe baem yn gallu gwneud hyn, y byddai dal angen i ni adeiladu gwaith trin dŵr newydd yn ardal Merthyr, ond byddai'n llai o lawer na'r safle a gynigiwyd yn flaenorol.



# STRATEGAETH CYFLENWAD DŴR CWM TAF



**Adolygu gwahanol opsiynau lleoliad ar gyfer gwaith trin newydd llai o faint**

Fel y soniwyd uchod, os yw uwchraddio un o'r safleoedd presennol yn opsiwn, byddem wedyn yn edrych ar ddatblygu gwaith trin dŵr newydd llai o faint yn ardal Merthyr.

Mae hyn yn golygu ein bod wedi gallu ystyried gwahanol ardaloedd ar gyfer gwaith trin dŵr newydd. Mae angen dewis lleoliad yn seiliedig ar sawl gofyniad i'n galluogi i ddarparu dŵr fforddiadwy a glân i'n cwsmeriaid. Mae hyn yn golygu dewis lleoliad mewn safle addas i gysylltu â phiblinellau dŵr presennol yn ogystal â maint y safle, gan sicrhau ein bod yn parhau i leihau effeithiau amgylcheddol.

Rydym felly wedi bod yn ystyried a oes cyfleoedd i edrych ar leoliadau gwahanol yn yr ardal ar gyfer gwaith trin dŵr llai o faint, gan gynnwys safleoedd tir llwyd.

Rydym hefyd wedi bod yn ystyried a yw'n bosibl cysylltu unrhyw waith newydd â'r rhwydwaith dŵr yfed presennol heb orfod mynd trwy Barc Cyfarthfa. Bydd ailddatblygu un o'r gweithfeydd trin dŵr presennol, ailddefnyddio pibellau presennol ac adeiladu gwaith trin dŵr newydd llai o faint yn lleihau'r effaith ar y parc hanesyddol sensitif hwn yn sylweddol, os nad yn gyfan gwbl.

**Cynnal arolygon pellach**

Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am yr amgylchedd o ddifrif ac yn parhau i gynnal arolygon amrywiol i lywio unrhyw benderfyniadau – mae'r rhain yn cynnwys arolygon amgylcheddol ac ymchwiliadau tir.

Bydd yr arolygon hyn yn nodi'r effeithiau y gallai'r gwaith trin dŵr newydd arfaethedig, a'r cyfleusterau cysylltiedig, eu cael ar yr amgylchedd a threftadaeth i'n galluogi i gynnwys cynlluniau lliniaru yn ein cynigion.

## Y Camau Nesaf

Gobeithio bod ein diweddariad yn dangos ein bod yn gweithio'n galed i edrych ar yr holl opsiynau yn seiliedig ar yr adborth a gawsom gan y gymuned leol.

O ran y camau nesaf, rydym yn parhau â'r gwaith arolygu ac yn adolygu ein hopsiynau, sy'n cynnwys parhau i adolygu ein cynnig gwreiddiol o fod ag un safle gwaith trin dŵr ar Fferm y Gurnos. Ein nod yw darparu diweddariad pellach ym mis Mawrth 2024 pan fydd yr adolygiad presennol wedi'i gwblhau a bod gennym rai opsiynau clir i'w cyflwyno.

Gallwch fod yn dawel eich meddwl hefyd y byddwn yn cynnal proses ymgynghori statudol lawn gyda'r gymuned leol cyn cyflwyno unrhyw gais cynllunio.

Yn y cyfamser, gallwch fynd i'n gwefan; **dwrcymru.com/cwmtaf** a fydd yn cael ei diweddaru i ddarparu rhagor o wybodaeth am Strategaeth Cyflenwad Dŵr Cwm Taf.

